

Canllawiau ar gyfer

# Cyfarfod/Adolygiad sy'n Canolbwyntio ar yr Unigolyn

Cyngor Sir y Fflint
Flintshire County Council

# Pam cael cyfarfod sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn?

Mae'r system ar gyfer cefnogi plant a phobl ifanc gydag Anghenion Addysgol Arbennig wedi dechrau newid. Mae dulliau sy'n Canolbwyntio ar yr Unigolyn yn ganolog i Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg, a'r Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol i Gymru. Maent yn canolbwyntio ar roi'r plentyn neu'r person ifanc wrth galon nodi eu hanghenion, cynllunio eu darpariaeth ac adolygu hyn.

# Beth yw cyfarfod sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn?

Mae cyfarfodydd sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn yn ffordd o benderfynu pa gefnogaeth sydd ei hangen i blentyn neu berson ifanc gydag anghenion dysgu ychwanegol neu unrhyw newidiadau sydd angen eu gwneud i'w cefnogaeth. Mae'n bwysig fod gan blant a phobl ifanc y bobl iawn yn cyfrannu at eu cyfarfod i'w helpu i gynllunio ar gyfer eu dyfodol. Mae hyn yn golygu bod y cyfarfod yn gallu sicrhau fod ganddynt y pethau cywir sy'n bwysig iddyn nhw, yn ogystal â'r gefnogaeth gywir i helpu i gyflawni eu dyheadau.

# Pwy fydd yno?

Bydd eich plentyn yn gallu dewis pwy yr hoffent i fod yno, ond bydd yna hefyd rai bobl sy'n gorfod bod yno. Weithiau, mae'n bosibl y bydd yna lawer o bobl sy'n cyfrannu at y cyfarfod, megis gweithwyr proffesiynol iechyd, gofal cymdeithasol ac addysg yn ogystal â theulu a ffrindiau. I eraill, mae'n bosibl mai ond chi, eich plentyn a rhywun o'r ysgol fydd yna.



# Ble a phryd fydd y cyfarfod?

Fel arfer bydd yn yr ysgol, ond ar hyn o bryd gall fod ar-lein. Dylai'r amser a'r dyddiad fod yn gyfleus i chi a'ch plentyn yn ogystal ag unrhyw un arall sy'n mynychu. Bydd yna gyfarfod sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn i gasglu gwybodaeth ar ddechrau'r broses ystyried Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY). Os bydd Cynllun Datblygu Unigol (CDU) yn cael ei gyflwyno, bydd yna o leiaf un adolygiad y flwyddyn - bydd yr ysgol yn gadael i chi wybod pan fydd y rhain yn cael eu cynnal.

# Beth ydych chi angen feddwl amdano cyn y cyfarfod?

Os byddwch chi yn y cyfarfod, yna bydd y ffurflen hon (gweler tudalen 5) yn eich helpu i feddwl am y pethau rydych eisiau eu dweud a gallwch ei defnyddio i ysgrifennu pethau rydych eisiau cofio ei ddweud ar y diwrnod. Os nad ydych am fod yn y cyfarfod yna gallai barhau i fod yn bwysig i'ch plentyn bod eich barn yn cael ei glywed yn y cyfarfod. Yn yr achos hwn, mae'n bwysig iawn eich bod yn cymryd amser i feddwl am y cwestiynau, cofnodi eich barn yn y bylchau a ddarperir a'i dychwelyd i'r ysgol erbyn y dyddiad maent wedi gofyn amdano. Bydd hyn yn helpu i sicrhau y gwrandewir ar eich barn yn y cyfarfod.

# Beth fydd yn digwydd yn y cyfarfod?

Byddwch yn gweld bod cyfarfod sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn yn cynnwys amgylchedd ymlaciol. Mae popeth wedi'i drefnu i fod mor anffurfiol a chyfforddus â phosibl. Os yw'n gyfarfod bach, mae'n bosibl y bydd yn sgwrs ymlaciol neu gall y cyfarfod gynnwys rhai o'r pethau yn y paragraffau nesaf. Os oes yna lawer o bobl yn dod, mae'n bosibl na fydd yna fwrdd mawr, ond gall gynnwys chwarae cerddoriaeth a phosteri neu ddarnau mawr o bapur wedi eu pinio ar y waliau neu gyflwyniad PowerPoint i ddilyn. Bydd pob cyfarfod/adolygiad yn newid i gwrdd ag anghenion y plentyn, sy'n ganolog i'r cyfarfod. Bydd unigolyn a elwir yr hwylusydd yn gyfrifol am sicrhau y gall pawb ddweud eu dweud a bod y cyfarfod yn cynnwys canlyniadau a chamau ar gyfer newid. Mae'n debygol mai'r hwylusydd fydd y Cydlynydd Anghenion Dysgu Ychwanegol yn ysgol eich plentyn, ond gall hefyd fod yn Swyddog Cynghori Anghenion Dysgu Ychwanegol yr Awdurdod Lleol a dylech wybod pwy ydyw cyn y cyfarfod. Mae'r cyfarfod yn dechrau gyda phawb yn cyflwyno ei hun ac o bosibl yn rhannu rhywbeth maent yn ei hoffi neu'n ei edmygu am eich plentyn. Bydd yr hwylusydd yn egluro beth sy'n digwydd yn y cyfarfod ac yna bydd pawb yn cael y cyfle i rannu eu barn a'u gwybodaeth am eich plentyn. Pan fydd pawb wedi gorffen rhoi eu sylwadau, byddwch i gyd yn meddwl am ac yn siarad am beth sydd angen newid a pha ganlyniadau a thargedau rydych eisiau eu gweld. Yna byddwch i gyd yn cytuno pa gamau sydd angen eu cymryd i gefnogi eich plentyn i'w helpu i gyflawni eu dyheadau.

# Ar ddiwedd cyfarfod

Ar ddiwedd y cyfarfod bydd yr hwylusydd yn sicrhau y casglwyd yr holl wybodaeth berthnasol yn nodiadau'r cyfarfod a/neu bod yna gynllun gweithredu y cytunwyd arno. Mae'r cynllun gweithredu i sicrhau y gall pawb weld beth sy'n mynd i gael ei wneud i gefnogi eich plentyn i ddysgu a chyflawni eu dyheadau.

Bydd nodiadau'r cyfarfod / cynllun gweithredu yn dweud:

- pa gefnogaeth mae eich plentyn ei hangen i ddysgu a datblygu
- pwy sy'n gyfrifol am sicrhau eu bod yn derbyn y gefnogaeth maent ei hangen (person a enwir)
- pryd a ble byddant yn derbyn y gefnogaeth hon
- sut byddwn yn gwybod os yw'r gefnogaeth wedi helpu eich plentyn yn y ffordd y bwriadwyd

Ar ôl y cyfarfod byddwch yn cael y cyfle i ddarllen nodiadau'r cyfarfod / cynllun gweithredu, meddwl am yr hyn y cytunwyd arno a thrafod gyda'ch plentyn.

Gweler isod gopi o ffurflen Cyfarfod / Adolygu sy'n Canolbwyntio ar yr Unigolyn gyda chanllawiau ac enghreifftiau o'r hyn y dymunwch ei ysgrifennu a'i drafod yn ystod y cyfarfod. Os byddwch angen unrhyw gyngor pellach, gallwch gysylltu â naill ai Cydlynydd Dynodedig eich Awdurdod Lleol neu gyswllt o fewn ysgol eich plentyn.



# Cyfarfod / Adolygiad sy'n Canolbwyntio ar yr Unigolyn - Llais y Rhiant

**Beth yr ydych yn ei hoffi a'i edmygu fwyaf am eich plentyn?**

*Rhestrwch y nodweddion yr ydych yn eu caru am eich plentyn.*

**Beth sydd wedi digwydd ers yr adolygiad diwethaf?**

*Rhestrwch y cynnydd, camau nesaf neu unrhyw beth newydd sydd wedi digwydd ers yr adolygiad diwethaf.*

**Beth ydych chi'n feddwl, o'ch safbwynt chi yw dyheadau eich plentyn ar gyfer y dyfodol?**

*Ysgrifennwch am ba amcanion sydd gan eich plentyn, beth maent eisiau ei wneud yn y dyfodol, beth hoffent ei gyflawni gartref / yn yr ysgol / gyda ffrindiau.*

**Beth ydych chi'n feddwl sydd bwysicaf ym mywyd eich plentyn ar hyn o bryd?**

*Rhestrwch y pethau mae eich plentyn yn hoffi eu gwneud. Beth sy'n eu gwneud yn hapus? Beth sy'n bwysig iddynt?*

*Gall enghreifftiau gynnwys*

- *Ffrindiau*
- *Clybiau*
- *Hoff hobïau*
- *Gweithgareddau teulu*
- *Anifeiliaid anwes*

**Beth ydych yn feddwl sy'n bwysig i'ch plentyn er mwyn iddynt ddatblygu a gwneud cynnydd?**

*Rhestrwch y pethau sy'n cefnogi eich plentyn gyda'u cynnydd, eu cadw'n iach ac yn ddiogel.*

*Gall enghreifftiau gynnwys*

- *cefnogaeth/cymorth maent yn ei dderbyn neu ei angen*
- *Arferion penodol*
- *Offer maent yn ei ddefnyddio/ei angen*
- *Ffyrdd penodol i'w helpu i reoli sefyllfaoedd*

# Cyfarfod / Adolygiad sy'n Canolbwyntio ar yr Unigolyn - Llais y Rhiant

**Beth ydych yn feddwl mae pobl eraill angen ei wybod neu ei wneud i helpu eich plentyn?**

*Rhestrwch ffyrdd/meysydd eraill ble gellir cynnig cefnogaeth i'ch plentyn.*

*Efallai eu bod yn ei chael hi'n anodd gyda rhywbeth nad yw'r ysgol/asiant yn ymwybodol ohono.*

**Beth sydd ddim yn gweithio mor dda ym mywyd eich plentyn ar hyn o bryd o'ch safbwynt chi?**

*O'ch safbwynt chi, rhestrwch yr hyn sy'n gweithio'n dda i'ch plentyn, beth sy'n eu helpu, pa bethau ydych chi'n hapus gyda nhw.*

**Beth sydd ddim yn gweithio mor dda ym mywyd eich plentyn ar hyn o bryd o'ch safbwynt chi?**

*O'ch safbwynt chi, rhestrwch yr hyn rydych chi'n deimlo nad yw'n gweithio'n dda i'ch plentyn, beth nad oedd yn eu helpu, y pethau nad ydych yn hapus gyda nhw.*

**A oes gennych unrhyw gwestiynau neu sylwadau eraill?**

*Rhestrwch unrhyw gwestiynau neu sylw arall sydd gennych nad ydych yn teimlo sydd wedi derbyn sylw.*

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg. Cysylltwch â 01352 752121 i gael fersiwn Saesneg

This document is available in English. Please contact 01352 752121 for a English version



Cyngor Sir y Fflint
Gwasanaeth Cynhwysiant
Raikes Lane, Neuadd y Sir
Yr Wyddgrug
CH7 6NB
ALN@flintshire.gov.uk
01352 752121